# BWRDD PENSIWN DYDD MAWRTH, 10 RHAGFYR 2019

**Yn bresennol**: Osian Richards (Cynrychiolydd Aelodau) – Cadeirydd

**Aelodau:** H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun), , Huw Trainor (Cynrychiolydd Cyflogwr) a Sharon Warnes (Cynrychiolydd Aelodau).

**Swyddogion**:- Delyth Jones Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Aled Evans (Cyngor Gwynedd) Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Anfonwyd dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Pennaeth Cyllid

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 24 Medi 2019 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i gais am ddiweddariad ar y broses o recriwtio a phenodi cynrychiolydd cyflogwr newydd i'r Bwrdd Pensiwn amlygwyd, yn dilyn llythyru pob cyflogwr am geisiadau, bod ceisiadau wedi eu cyflwyno. Ategwyd mai y 15fed o Ionawr 2020 yw'r dyddiad cau gyda bwriad cynnal cyfweliadau ar y 23ain o Ionawr 2020

## 5. COFNODION PWYLLGOR PENSIYNAU A CHYFARFOD BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Derbyniwyd, er gwybodaeth, gofnodion y Pwyllgor Pensiynau a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2019 ynghyd a chofnodion cyfarfod blynyddol y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd 24 Hydref 2019.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw sylwadau pellach i'w codi o'r cofnodion.

## 6. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau allan y wasg ar cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Er bod budd cyhoeddus mewn cael dealltwriaeth o weithredu'r gronfa bensiwn mae'r adroddiad yma ynglŷn â graddfeydd arfaethedig sydd yn cael eu rhannu fel rhag rhybudd gyda Chyflogwyr y Cynllun. Nid yw'r wybodaeth yma wedi ei rannu o fewn cyfundrefnau rheolaethol pob un o'r Cyflogwyr yma a gall ei gyhoeddi ar y pwynt yma gael ardrawiad ar fuddiannau'r Cyflogwyr drwy danseilio eu trefniadau adrodd a pharatoi cyllid. Ar falans, roedd y Swyddog Monitro yn fodlon nad oedd budd cyhoeddus yn cefnogi cyhoeddi'r adroddiad yma.

## 7. CANLYNIADAU PRISIANT Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn amlygu canlyniad prisiant y Gronfa Bensiwn. Nodwyd bod gwellhad yn sefyllfa'r Gronfa gyda'r lefel cyllido wedi cynyddu o 91% ar 31 Mawrth 2016 i 108% yn 31 Mawrth 2019. Nodwyd bod hyn yn newyddion da iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn, nodwyd bod pob cyflogwr sydd yn rhan o'r gronfa yn ymwybodol o'u canlyniad unigol a bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda hwy.

**DERBYNIWYD y wybodaeth.**

## 8. AIL AGOR Y CYFARFOD I'R WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** ail agor y cyfarfod i'r wasg ar cyhoedd

## 9. DIWEDDARIAD AM BERFFORMIAD BUDDSODDI'R GRONFA BENSIWN 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Aelodau o'r gwaith monitro a pherfformiad buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn. Amlygwyd bod y Gronfa mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers 2010 gyda pherfformiad buddsoddiadau'r gronfa wedi bod uwchben y meincnod ymhob un o'r cyfnodau a fesurwyd.

Adroddwyd bod dychweliadau positif ar fondiau ac ecwiti ynghyd a dychweliadau eithaf cyson mewn buddsoddiadau eiddo. Eglurwyd mai'r brif ffactor oedd yn effeithio'r sefyllfa ariannu rhwng 2016 a 2019 oedd y cynnydd o £505 miliwn o'r enillion buddsoddi. Nodwyd bod cyfran o'r cynnydd yn ganlyniad i gyfraddau cyfnewid arian gan fod y Gronfa wedi'i brisio yn nhermau punnoedd, ar asedau wedi'u rhestru yn nhermau arian tramor e.e. ewro a doleri. Ategwyd, fodd bynnag, bod mwyafrif o symudiad yng ngwerth y Gronfa yn gynnydd gwirioneddol mewn arian lleol oherwydd perfformiad ffafriol asedau'r Gronfa.

Mynegwyd bod sefyllfa pob cyflogwr unigol o'r Gronfa yn wahanol ond yn gyffredinol bod cryfder y Gronfa wedi caniatáu cymryd agwedd hyblyg tuag at gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr fydd yn effeithiol o Ebrill 2020.

Diolchwyd am y wybodaeth. Nodwyd bod y sefyllfa yn edrych yn dda iawn.

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

## 10. CYFATHREBU AG AELODAU NEWYDD AC IFANC

Mewn ymateb i bryderon y Bwrdd bod aelodau ifanc yn optio allan o'r Cynllun Pensiwn cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Pensiynau yn manylu ar y gwaith cyfathrebu sydd yn cael ei wneud i ymgysylltu gydag Aelodau i geisio eu hannog i aros yn y Cynllun. Trafodwyd y drefn ymuno ac optio allan ynghyd a sut mae'r Cynllun yn cael ei hyrwyddo. Eglurwyd bod cais wedi ei wneud i adrannau Cyflogau Cynghorau Gwynedd, Conwy a Môn am wybodaeth o'r nifer o staff sydd wedi optio allan o'r Cynllun. Er mai un ymateb a dderbyniwyd a hwnnw gan Cyngor Gwynedd, roedd yn rhoi darlun eithaf clir o'r sefyllfa.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- Cynnwys mwy o wybodaeth yn y pecyn ymuno gyda manylion llawn o'r buddion
- Cynnal ymgyrch i hybu staff o dan 40 oed i ymaelodi gyda'r Cynllun Pensiwn
- Awgrym bod angen anfon llythyr cyn y cyflog cyntaf yn rhoi manylion swm y taliad
- Cymharu sut mae cronfeydd eraill yn cyfathrebu gyda staff - cais am enghreifftiau o'u llawlyfrau / pecyn ymuno
- Holi staff sydd yn dewis optio allan am eu rhesymau dros eu dewis

**PENDERFYNWYD**

- **derbyn y wybodaeth**
- **gwneud cais am ymateb i'r sylwadau uchod erbyn y cyfarfod nesaf**

## 11. DIWEDDARIAD MCCLOUD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn diweddaru'r Bwrdd ar effaith canlyniad dyfarniad McCloud ar weinyddwyr cronfeydd a chyflogwyr sydd yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Adroddwyd ers penderfyniad y Goruchaf Lys (Mehefin 2019) i wadu hawl y Llywodraeth i apelio i'r penderfyniad bod amddiffyniadau danategiad yn anghyfreithlon oherwydd gwahaniaethu ar sail oedran, nid oedd arweiniad wedi ei gyflwyno o ganlyniad i ddyfarniad y Llys Apêl. Ategwyd bod trafodaethau am yr effaith debygol yn cael eu cynnal gyda'r ymgynghorydd buddsoddi, Hymans Robertson.

**DERBYNIWYD y wybodaeth**

## 12. DETHOL CYNRYCHIOLWYR AR GYFER MYNYCHU DIGWYDDIADAU AR 16 IONAWR A 27 - 28 CHWEFROR

Cyflwynwyd adroddiad yn hysbysu'r aelodau am gynadleddau a digwyddiadau perthnasol er mwyn ceisio enwebiadau ar gyfer mynychu ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd.

**PENDERFYNWYD ar y canlynol**

Cyflwyniad Link a Russell
16 Ionawr 2020
**Osian Richards, Hywel Eifion Jones a Sharon Warnes**

'LGC Investment Seminar', Carden Park, Swydd Gaer
27 – 28 Chwefror 2020
**Hywel Eifion Jones, Huw Trainor a Sharon Warnes**

## 13. Y RHEOLYDD PENSIYNAU: AROLWG TREFN LLYWODRAETHOL GWSANAETH CYHOEDDUS 2019

Cyflwynwyd arolwg oedd wedi ei gyhoeddi gan y Rheolydd Pensiynau ar gyfer pob Rheolwr Cynllun Lleol. Amlygwyd mai Cyngor Gwynedd yw Rheolwr Cynllun Lleol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd ac felly gyda chyfrifoldeb i gwblhau'r arolwg ar y cyd gyda Chadeirydd y Bwrdd Pensiynau. Eglurwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion oedd 29 Tachwedd 2019, ond ymestynnwyd y terfyn amser gan y Rheolydd er mwyn derbyn mewnbwn y Bwrdd.

Yn unol â phenderfyniad y Cadeirydd i dderbyn mewnbwn Aelodau'r Bwrdd i'r arolwg, cwblhawyd a chyflwynwyd yr arolwg ar-lein i wefan y Rheolydd Pensiynau yn ystod y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth, nodwyd y materion canlynol fel rhai oedd angen sylw:

- Bod angen cofrestr o fuddiannau Aelodau'r Bwrdd Pensiwn (A2)
- Bod angen i Reolwr y Cynllun neu'r Bwrdd Pensiwn gynnal gwerthusiad swyddogol o'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r Bwrdd mewn perthynas â rhedeg y Cynllun (A6).
    - Awgrym trafod y Polisi Cyfathrebu yn y cyfarfod nesaf.
    - Strategaeth Weinyddol o'r Cynllun - awgrym i edrych ar esiamplau eraill.
    - Angen diweddaru polisïa - rhai dogfennau yn hanesyddol
- Bod angen cynnwys a chydnabod risg seibir ar gofrestr risg y Cynllun (B4)
- Bod angen adrodd i'r Rheolydd Pensiynau y dyddiad cau a fethwyd ar gyfer cyhoeddi datganiadau aelodau gweithredol (F2)
- Bod angen cofnodi rhesymeg dros beidio adrodd ar unrhyw dor-cyfraith (F3). Cywirdeb yn bwysicach na chyrraedd targed. Ystyried eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 4.00 y.h.

**CADEIRYDD**